

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Howell Hones, aelod a fu'n ffyddlon a gweithgar yng Nghapel y Waen, Nantglyn ac yn flaenor yno am 52 o flynyddoedd. Treuliodd Howell y pedair blynedd ddiwethaf yng Nghartref Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas ac mae'n diolch yn fawr i'r staff am eu gofal arbennig drosto ac i bawb arall a fu mor ffyddlon yn ymweld ac yn gofalu amdano. Diolchwn amdano ac am ei fywyd a'i wasanaeth ar hyd y blynyddoedd. Parhawn i gofio am eraill o'n plith sydd wedi cyfarfod â phroffedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf hefyd, gan hyderu eu bod yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Cofiwn yn dyner iawn hefyd am Glyn Jones (Nantglyn) gafodd ei symud yn ôl i Ysbyty Glan Clwyd ddechrau'r wythnos. Gweddiwn y bydd y dyddiau nesaf yn rhai lle y bydd yn cryfhau ac yn adnabod agosrwydd yr Arglwydd. Cofiwn am ei deulu hefyd yn ein gweddiâu a diolchwn am y gofal arbennig y mae'n ei dderbyn. Anfonwn ein cofion at eraill o'r Fro sydd heb fod yn dda eu hiechyd hefyd, rhai wedi cael triniaeth yn ddiweddar ac eraill sydd yn derbyn triniaeth tymor hir. Gweddiwn ar iddynt brofi Duw yn ddigon iddynt yn eu hangen.
- Bu i'r Gymdeithasfa ym Mlaenau Ffestiniog yr wythnos hon gydnabod cyfraniad gwerthfawr Trebor Roberts, Acre Isa a fu'n flaenor yn Llansannan am 50 mlynedd. Diolchwn ninnau'n gywir iawn iddo am ei wasanaeth ar hyd y blynyddoedd ac estynnwn ein llongyfarchion a'n dymuniadau gorau iddo.

I ddod

- **Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd** yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug, dydd Mawrth, Mai 7fed. Cyfarfod y prynhawn am 2.00 a'r siaradwyr fydd Sarah Morris ac Elinor Owen, a chyfarfod yr hwyr am 5.30 gyda Carys Humphreys, Taiwan yn annerch. Bydd paned o de ar gael yn Festri Capel Bethesda wedi oedfa'r pnawn. Croeso cynnes i bawb.
- **Wythnos Feiblaidd Keswick** – Esea: Proffwyd i'n hoes? yn Eglwys y Bedyddwyr (Saesneg), Llandudno (Mai 7fed – 10fed). **Cyfarfod Cymraeg Arbennig** pnawn Mercher am 2.30 gyda'r Parch Euros Wyn Jones. Cyfarfodydd eraill dydd Mercher, lau a Gwener am 10.30 y bore; a nos Fawrth, Mercher a lau am 7.30 yr hwyr.
- **Darlith ar Thomas Jones, Dinbych ac achos yr Efengyl yn yr ardal** nos lau Dyrchafael, Mai 9fed yn Llansannan am 7.30 gydag Andras Iago yn darlithio.
- **Cymdeithas Cefn Berain** yn cynnal Helfa Drysor diwedd tymor a swper i ddilyn nos lau, Mai 9fed am 6.00. Enwau a dewis bwyd i Meryl, os gwelwch yn dda.
- Cyfarfod o waith **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** am 4.30 a **Chyfarfod Gwobrwyo'r Ysgol Sul** am 6.00 yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Wener, Mai 10fed.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 28^{ain} Ebrill 2013

Darlleniad y Dydd

Luc 9:1-9

(BCND tud.74 / BCN: tud.68)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da, a chroeso i oedfaon y dydd. Yn y darlleniad heddiw mae Iesu yn anfon y disgyblion cyntaf allan i'r pentrefi i gyhoeddi'r newydd da ac i iacháu. Maent yn mynd yn ufudd ac yn dod yn ôl ato hefo hanesion rhyfeddol ac mewn llawenydd mawr. Diolchwn i'r Arglwydd fod y newydd da yn dal i gael ei rannu ym mhentrefi'r Fro a gweddiwn yn daer am fendith yr Ysbryd ar y Gair ac ar bawb sy'n gwranddo. Llawenydd a gawn ninnau wrth ymateb i'r Gair ac wrth i ni glywed am ymateb eraill.

Bydd yr ymateb i'r Gair yn cael ei ddisgrifio weithiau fel y llawenydd sydd yn dod wrth i'r rhai sydd heb fwyd gael bwyd. Gallwn ddeall hynny'n iawn yr adeg yma o'r flwyddyn ar ôl gaeaf a gwanwyn mor galed a llwm. Mae prinder cyffredinol wedi bod ar feed ac nid oes maeth yn y borfa. Mae hyn wedi arwain at golledion mawr ac mae sawl diadell wedi gorfod byw ar eu cythlwg ers misoedd. Mae'r blewyn glas yn brin, ond unwaith y daw i'r golwg fe fydd y ddafad yn gwrthod yr hen wair ac yn chwilio am fwy o'r glas. Fe wyddant fod maeth a chynhaliaeth yn hwnnw.

Mae'r rhai sy'n ymateb i Air Duw yn profi'r un math o beth. Un o'r pethau sy'n digwydd wrth i bobl gael goleuni'r Ysbryd ydi eu bod nhw'n chwilio am gynhaliaeth a maeth yn y Gair. O'r blaen, dim ond geiriau sych a diflas oedd y Beibl ond mae hynny wedi newid bellach. Mae'r Beibl rwan fel blewyn glas iddynt a does dim byd tebyg iddo!

Yn y Gair mae pleser a chynhaliaeth bywyd y Cristion gan fod Duw yn siarad trwy ei Air ac yn dod â ni i lawnder. Peth braf ydi eistedd i lawr i blatiad o fwyd ar ôl diwrnod caled o waith. Bydded felly heddiw wrth i ni ddod, ar ôl wythnos digon anodd i lawer, i wledda ar fendithion Duw wrth i'r newydd da gael ei osod o'n blaenau yn yr oedfaon ac wrth i ni fwynhau cwmni'n gilydd.

Cofiwn yn arbennig heddiw am gynulleidfa Llanfair Talhaiarn. Maent yn ôl yn y capel bellach ar ôl y llifogydd ac mae'r capel yn edrych yn hynod o dda o'r tu mewn ac o'r tu allan. Diolchwn o galon i bawb sydd wedi llwyddo mor dda i lywio'r gwaith o adfer a thaclo Soar ac i bawb am eu help i wneud y capel yn addas eto i gynnal yr oedfaon a'r Ysgol Sul. Dymunwn fendith Duw ar y blaenoriaid a'r gynulleidfa oll.

Aneurin

“Getting your kids through church without them ending up hating God”

Nos Fawrth, Mehefin 4ydd am 7.30 yn Eglwys Sure Hope, Hen Golwyn – mwy o fanylion yn y rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled. Cysylltwch â Mair **ERBYN NOS FAWRTH NESAF** er mwyn sicrhau tocyn (£5): 01745 870632 / 07900 627536

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan heno am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd y Parch Hywel Meredydd yn pregethu ac yn rhannu ychydig am ei waith fel Cyfarwyddwr Tearfund. Croeso cynnes i bawb.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
Mercher • **Adnabod Addoli** yn Festri Llansannan am 8.00.
Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
• **Taith Gerdded C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol). Cyfarfod ym Mrynrydyrarian (ger y groesffordd) am 7.30 gan orffen ym maes parcio'r capel yn Llansannan am 9.15. Cofiwch ddod ag esgidiau addas i gerdded!
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Bydd Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch Hywel Meredydd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Groes am 2.00 a bydd Oedfa Thema yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

* Casgliad Sasiwn Genhadol y Chwiorydd *

Mae llawer o'r chwiorydd yn gweithio'n ddiwyd iawn yn eu heglwysi, yn yr Ofalaeth ac yn yr Henaduriaeth, a phob blwyddyn, fe wneir casgliad arbennig sy'n gwneud hi'n bosibl i Adran Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru gyfrannu'n hael at waith Gweithwyr y Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth a Phrosiectau gartref a thramor. Mae'n dda cael adrodd bod chwiorydd Eglwys Bro Aled wedi cyfrannu £520 eleni tuag at y casgliad arbennig hwn. Diolch i chi am eich haelioni.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.